



Comisiwn Ffiniau
i Gymru


Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 3: 10247 (Rhan 2)

2. Arfon Conwy Dwyfor (76,369 +) (74,692 o)



Dynodiad: Mae'r etholaeth yn cynnwys tair rhan. Adlewyrchir y rhain yn enw'r etholaeth Arfon Conwy Dwyfor. Enw arall arno oedd Menai Conwy Llŷn, sy'n adlewyrchu ac yn dangos tair rhan yr etholaeth. Neu unrhyw gyfuniad o'r pum enw.

Eglurhad: Mae Pen Llŷn yn naturiol yn ffurfio un ac mae agosaf i ardal Arfon ar hyd y Fenai. O Fangor, ar hyd yr arfordir i Gonwy gyda threfi ar hyd y ffordd. Mae'r ardal gyfan wedi'i chysylltu'n dda â / gan ffordd "A". O Gonwy, mae'r A55. O Fangor mae'r A487. O'r ffordd hon mae'r A499 i Ben Llŷn. Gallai ward Caerhun fod yn yr etholaeth hon neu'r etholaeth ganlynol, Bae Colwyn. Gweler isod tudalen 13.

3. Bae Colwyn/ Betws-yn-Rhos (75,116 +) (73,439 o)



Compilation Gogarth 2795 Mostyn 2758 Deganwy 3289 Tudno
 3591 Craig-y-Don 2685 Penrhyn 3874 Llandrillo yn Rhos 6110
 Mochdre 1425 Rhw 4991 Glyn 3088 Eirias 2800 Colwyn 3373
 Llysfanen 1906 Llanddulas 1353 Pentre Mawr 2861 Abergel Pensarn
 1959 Towyn 1845 Kinnel Bay 4607 Gele 3997 Betws-yn-Rhos 1623
 Llansannan 1495 Llangernyw 1104 Uwchallad 1139 Uwch Conwy 1276
 Betws-y-Coed 967 Trefriw 1026 Crwst 1581 Gower 850 Eglwysbach
 1257 Llansanffraid 1814 Caerhun 1677

NB

With Caerhun 75116; Without Caerhun 73439, see below
 oo 2x3 go together ++2x3 go together page 13.

Dynodiad: Mae'r etholaeth hon yn cynnwys yr ardal wyliau arfordirol a'r ardal ffermio mewndirol. Dosbarth Conwy ydyw yn y bôn, heb yr ardal uchod sy'n cynnwys tref Conwy. Gyda'r ddwy ardal hon byddai enwau tebygol yn adlewyrchu un neu'r llall o'r ardaloedd hyn. Ni ellir defnyddio enw'r ardal gan nad yw Conwy wedi'i chynnwys. (Ymddengys ei enw mewn un arall hefyd). Enw ar yr ardal wyliau arfordirol fyddai Bae Colwyn. Gallai enw ar ardal ffermio cefn gwlad fod yn Betws-yn-Rhos. Ar un ystyr mae Betws-yn-Rhos yn cysylltu'r ddwy ardal. Mae hefyd yn ganolog i'r etholaeth. Felly efallai mai dyma'r enw mwy ffafriol- mae'n ffinio â'r rhan fwyaf o'r ardal arfordirol, a llawer o'i threfi. Mae felly'n cysylltu ac efallai'n bodloni'r ddwy ran o'r etholaeth.


Eglurhad: Seilir yr etholaeth hon ar Ddosbarth Conwy. Mae Dosbarth Conwy yn rhy fawr i fod yn etholaeth. Nid yw'r ardal arfordirol o amgylch tref Conwy a thuag at Fangor wedi'i chynnwys. Mae'r ardal yn dod ag ardaloedd arfordirol a chefn gwlad at ei gilydd, ac felly hefyd yr etholaeth. Mae cysylltiad da rhwng yr etholaeth a'r A55

arfordirol, Dyffryn Conwy A470 a'r A548 o Lanrwst yn y de i Abergele yn y gogledd-ddwyrain. Mae'r rhain i gyd yn ffyrdd da. Gallai ward Caerhûn fod yn yr etholaeth hon neu'r etholaeth flaenorol Arfon Conwy Dwyfor. Gweler isod.

D.S. Ward Caerhun. Gallai'r ward hon fynd i mewn naill neu'r llall o'r etholaethau uchod. Mae yna fanteision i'r ddau- rhesymau da dros bob un. Y rheswm i Gaerhun fod yn Arfon Conwy Dwyfor yw, yng ngogledd y ward, mae beth ffordd allan o ardal tref Conwy, yn ei bwydo ac yn ei wasanaethu'n dda. Y rheswm i Gaerhun fod ym Metws-yn-Rhos/ Bae Colwyn yw bod rhan ddwyreiniol y ward hon yn mynd ar hyd yr Afon Conwy, gan ffurfio un ochr i'r dyffryn hwn. Mae gan Dal-y-cafn a Dolgarrog ill dwy orsafoedd rheilffordd. Pa bynnag etholaeth bydd Caerhun ynddo, mae'r etholaethau o fewn yr ystod etholiadol- mae pob un yn abl ac yn dda.

4. Y Rhyl Prestatyn 70,580

Compilation Rhyl - West 32835 South-West 3732 South 2874 South-East 6253 East 3693; Prestatyn - North 4729 South-West 2861 Meliden 1529



Dynodiad: y ddwy dref fwyaf o bell ffordd yn yr ardal hon yw'r Rhyl a Prestatyn. Felly, maen nhw yn enw'r etholaeth. Os ydych am ddangos i ba raddau mae'r etholaeth yn ymestyn fe allech chi ddefnyddio'r drydedd dref fwyaf a Ddinbych h.y. y Rhyl Prestatyn Dinbych.

Eglurhad: Rhyl a Phrestatyn yn mynd gyda'i gilydd. Ni ddylid eu gwahanu. Bod gyda'i gilydd gan gynnwys yr ardaloedd cyfagos, megis Rhuddlan a Dyserth, ac ati. Mae'r gornel ogledd-ddwyreiniol hon yn cyd-fynd yn dda, gyda'r gwyliau a chefn gwlad. Ceir amrywiaeth o drefi llai ac yn y blaen.

5. Dyfrdwy 72,115



Compilation Saltney - Stonebridge 2672 Mold Junction 1100; Broughton - North-East 1723 South 3325; Penyffordd 3543 Higher Kinnerton 1373 Hope 2042 Caergwile 1225 Hawarden 1623 Mancot 2516 Queensferry 1748 Sealand 2026 Shotton - East 1219 West 1464 Higher 1669; Aston 2508 Ewloe 4327 Connah's Quay - Wepre 1647 South 4494 Central 2213 Golftyn 3688; Fflint - Oakenholt 2538 Trelawny 2710 Castle 1426 Coleshill 2938; Bagillt - East 1413 West 1625; Holywell - East 1383 Central 1465 West 1762; Northop 2596 Northop Hall 1398 Halkeyn 1427 Brynford 1789

Dynodiad: Mae'r etholaeth yn rhedeg ar hyd yr afon ac felly wedi ei enwi ar ei hôl-Dyfrdwy. Dyma'r brif nodwedd ffisegol a tharddiad yr aneddiadau yma. Mae'n drefol ac mae gwahanol ddiwydiannau yma. Enw arall posibl yw Fflint, sy'n eithaf canolog yn yr etholaeth ac yn adnabyddus.

Eglurhad: Mae'r ardal hon yn drefol i raddau helaeth, gan fod ag effeithiau'r Chwyldro Diwydiannol. Mae felly'n ffurfio ardal yndo'i hun. Roedd yr afon yn bwysig yn ystod y cyfnod yma, fel y bu am y rhan fwyaf o gyfnodau. Yn nodweddu'r ardal.

6. Wrecsam 72,977




Compilation Mold 2479 Rossett 2643 Maford Hoseley 1824 Gresford East West 2337 Llay 3513 Gwersyllt - East West 3601 North 1995 West 2263; Brynyffynnon 2477 Offa 1428 Eiddig 1444 Hermitage 1544 Whitegate 1594 Smithfield 1376 Queensway 1377 Wynnstay 1159 Cartrefle 1545 Rhosnesni 2827 Maesydre 1420 Grovener 1698 Stansty 1641 Garden Village 1656 Little Acton 1843 Acton 2177 Borras Park 1968 Minera 1870 Brymbo 3021 Bryn Cefn 1543 New Broughton 2842 Gwenvro 1217 Coedpoeth 3482 Eshusham 2013 Marchwiel 1830 Overton 2710 Bronington 2620

Dynodiad: Y lle mwyaf yng Ngogledd Cymru - Wrecsam ei enw.

Eglurhad: Wrecsam yn rhy fawr i fod mewn un etholaeth. Felly, cynhwysir ardal adeiledig ei hardal ganolog a'r amgylchoedd cysylltiedig. Nid yw'r rhan dde-orllewinol wedi'i chynnwys. O bosib, dyma'r rhan o'r ardal a allai fod â llai o gysylltiad â'r gweddill, Mewn sawl ffordd dim ond y rhan orllewinol y gellid ei heithrio o'r Ardal, gyda'r effaith andwyol leiaf.

7. Glyndŵr 70,887



Dynodiad: enwi ar ôl yr hen ardal a enwyd ar ôl un o Dywysogion y rhannau hyn yn y gorffennol. Prifysgol bellach â'r enw hefyd. Gallai enw arall fod ar ôl y ddwy brif dref, un yn y gogledd ac un yn y de- Bwcle Llangollen.

Eglurhad: Mae'r etholaeth yn cadw Bwcle a'r Wyddgrug gyda'i gilydd- heb eu gwahanu. Mae'n cadw holl ardal Rhosllannerchrugog- Rhiwabon gyda'i gilydd. Mae llawer o ffyrdd da. Yn eu plith mae'r A494/ A549 Fwcle i Gorwen yn y de drwy'r Wyddgrug a Rhuthun. Yr A5 rhwng Corwen a Llangollen. Ffyrdd da rhwng Llangollen a Rhuthun. Mae ffyrdd "A" da yn croesi'r etholaeth e.e. yr A5105 a'r A525/A542. Ceir nifer o drefi bychain.

Gogledd Cymru. Mae'r saith etholaeth uchod ar gyfer Gogledd Cymru. Mae tair, Ynys Môn a Betws-yn-Rhos/Bae Colwyn wedi'u ffurfio ac yn seiliedig ar ardaloedd cyngor fel y mae Wrecsam, i raddau helaeth. Seilir un ar yr afon ac ar dreftadaeth ddiwydiannol- Dyfrdwy. Mae dwy wedi eu seilio ar ardaloedd arfordirol, un gan gynnwys Bangor, un gan gynnwys Y Rhyl. Mae'r un yn y de wedi ei seilio ar drefi- Bwcle, Rhuthun, Llangollen a Chorwen.

Canolbarth Cymru (6 etholaeth)

8. Maldwyn Meirionnydd 77,061



Compilation Llanrhaedr-yn-Mochnant/Llanstin 1815
Llanwddyn 846 Llanfyllin 1217 Llanfyllan 1563
Llandysilio 1441 Llandrinno 1763 Melfod 1069 Llanfihangel 895
Banwy 847 Llanfair Caereinion 1301 Gullifield 1827 Welshpool -
Llanerchydol 1602 Gungrog 1995 Castle 962; Trewern 1066 Forden
1215 Montgomery 1107 Dolforwyn 1652 Newtown Llanllwchaern -
North 1796 West 1447; Newtown - Central 2122 South 1215 East 1401;
Churchstoke 1292 Kerry 1607 Llandinam 1155 Blaen Hafren 1876
Llanidloes 2149 Berriew 1102 Rhiwcyon 1724 Caersw 1831
Llanbrynmair 798 Glanwymyn 1701 Machynlleth 1701 Aberdovey
907 Tywyn 2476 Bryn-crug/Llanfihangel 772 Llangelynin 1625
Abermau 1591 Dolgellau - North 953 South 1072; Brithdir and
Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd 1132 Corris/Mawddwy
1023 Llanuwchllyn 686 Bala 1413 Llanidderfel 1135 Trawsfynydd
1088 Teigi 1355 Diffwys & Maenofferen 779 Bowydd & Rhiew
1235 Penrhynndraeth 1826 Porthmadog - Tremadog 933
East 1178 West 1329; Harlech 1516 Llanbedr 768
Dyffryn Ardudwy 1169

For sketch map see over →

Dynodiad: Teitl yr etholaeth hon yw dwy hen sir. Roeddent hefyd yn ddwy ardal gynt o'r ddwy sir y maent ynddynt bellach. Enwyd y ddwy sir ar ôl hen dywysogion Cymreig- Powys a Gwynedd. Mae'r enwau yn y ffordd Gymraeg. Mae hyn nawr yn

fwy aml na pheidio fel mae'n mynd, mwy a mwy. Maldwyn yw'r mwyaf poblog o'r ddwy sir ac felly fe'i gosodir ar ddechrau'r enw- Maldwyn Meirionnydd.

Eglurhad: Nid oedd gan y ddwy sir fel yr oeddynt ddigon o bobl i wneud yr ystod etholiadol bresennol. Felly, mae angen ategu pob un ohonynt. Y rhai amlwg i Maldwyn fyddai'r siroedd y maen nhw ynddi ar hyn o bryd. I Maldwyn y byddai hwnnw ym Mhowys. I Feirionnydd dyna fyddai Gwynedd. Ond nid oes gan bob un o'r siroedd presennol hyn niferoedd i ffitio'n union i etholaethau, ac mae niferoedd etholaethau yn golygu bod yn rhaid i rannau o'r siroedd presennol hyn edrych ar rywle arall. Bu gan ddwy hen sir Maldwyn a Meirionnydd hanes ers amser maith ac mae ganddynt gysylltiadau da. Yn wir y ffin â Meirionnydd yw'r hiraf o unrhyw un o'r ffiniau ag eraill o bell ffordd. At hynny mae llawer o ffyrdd Maldwyn yn mynd tua'r gorllewin neu'r gogledd-orllewin, i mewn i Feirionnydd. Er enghraifft, yr A458 a'r A470. Mae Dyffryn Dyfi yn cael ei rannu rhyngddynt. Y brif dref yn rhan gogledd-orllewin Maldwyn yw'r ganolfan yno- Machynlleth. Mae Mynyddoedd y Berwyn yn rhwystr enfawr yn y gogledd heb unrhyw ffyrdd, felly mae hynny'n ffurfio rhwystr ffisegol. Ond mae'r hanesion yn wahanol iawn ac nid oes cysylltiadau a rennir na dim yn gyffredin. Mae'r diwylliannau yn gwbl wahanol. Ni ellir dweud hynny wrth fynd i'r gorllewin. Gan fod mynd i'r gogledd yn creu etholaeth o ddwy ran ar wahân. Yna mae un sy'n ffurfio etholaeth nad oes ganddynt y rhain yn llawer gwell. Mae hynny'n golygu mynd naill ai i'r gorllewin neu'r de. Gyda'r hanes, cysylltiadau, mae'r ddwy hen ardal sirol yma yn mynd yn dda gyda'i gilydd. Os ydych chi'n mynd allan o'r sir (i'r naill neu'r llall), yr opsiwn mwyaf naturiol i'r naill neu'r llall yw'r sir arall yn y pâr hwn, ac felly'n briodol maent yn ffurfio un etholaeth gyda'i gilydd. Mae defnydd y tir, y galwedigaethau a'r hanesion yn mynd yn dda gyda'i gilydd. Wedi Powys yr agosaf ym mhob ffordd at Maldwyn yw Meirionnydd. Felly, dyma'r unig opsiwn.

9. Brycheiniog Faesyfed/ Maesyfed Dinefwr 70,590

Powys Deheuol Caerfyrddin Dwyreiniol

Compilation Beguildy 1135 Nantmel 1243 Rhayader 1589
Llanrhydydd Wells 1450 Llanafan-fawr 1141 Builth 1849 Llanellwedd
987 Disserth & Trecoed 1055 Llanypre 978 Llandrinod - North 1517
East/West 949 South 1726; Llanbadarn Fawr 925 Llangunllo 1071
Knighton 2296 Presteigne 2174 Old Radnor 1375 Llanellwedd 987
Glosbury 1901 Hay 1355 Bronllys 1060 Felin-Fach 1102 Yscir
888 Maescar/Llywel 1405 Talybont-on-Usk 1537^{recor} St David
Within 1263 St Mary 2194 St John 2365; Llangons 901 Talgarth
1305 Gwernysted 1178 Crickhowell 2410 Butch 800 Llangethock
○ 762 Llangynidir 865 Tawe-Uchaf 1763 Aber-Craf 1143
Ystradgynlais 1935 Ynyscedwyn 1705 Cwm-Twrch 1557
Llandoverly 1963 Llangradog 1629 Cilycwm 1175 Manordeith &
Salem 1816 Quarter Bach 2218 Llandeith 2307 Cynwyl Gaeo 1351
Llandybie 3277

Dynodiad: Gellir ystyried yr etholaeth fel dwy ran, un o dde Powys a'r llall o orllewin



Caerfyrddin. Felly, gellid ei dynodi yn Powys Deheuol Caerfyrddin Gogleddol. Dwy ran ym Mhowys ei hun fu dwy ran wahanol a phe byddai rhywun yn dymuno parhau â hyn yna byddai'n rhaid cael teitl o dri enw. Cyfeiria Maesyfed at y dref, yn benodol Maesyfed Newydd o'i gymharu â Hen Faesyfed sydd ag enw hollol wahanol yn y Gymraeg, sef Pencraig. Eto cyfeirir at Hen Faesyfed fel Maesyfed weithiau. Yn gyffredinol, gellir dweud yn Gymraeg, y dref yw Maesyfed, y sir yw Sir Faesyfed. Tra yn Saesneg, Radnor yw'r dref, y sir yw Radnorshire. Eto i gyd, weithiau cyfeirir at y sir fel Maesyfed hefyd. Er wrth enwi etholaeth gall y teitl gael

enwau cymysg, h.y. cynnwys enwau trefi a siroedd. Mae'n fwy arferol i ddefnyddio'r un peth drwy'r cyfan h.y. naill ai tref i gyd neu siroedd i gyd. Felly, bydd teitl / enw etholaeth yn dibynnu a ydych chi'n defnyddio trefi neu siroedd. Mae'r siroedd yn cynnwys ardal fwy.


Teitl yn defnyddio enwau trefi fyddai Aberhonddu, Maesyfed, Llanymddyfri, Llandeilo. Teitl yr etholaeth gan ddefnyddio enw sirol fyddai Bryncheiniog, Maesyfed, Dinefwr. Nid yw Dinefwr yn sir, ond sedd Frenhinol Tywysogaeth y Deheubarth. Fe'i defnyddiwyd i enwi hen ardal yno. Mae'r rhan etholaethol hon o Sir Caerfyrddin bron i gyd o Dinefwr. Felly, i ddefnyddio'r enw hwn. Mae rhai yn meddwl mai Dinefwr yw Llandeilo. Y teitl gan ddefnyddio hen enwau sirol fyddai Bryncheiniog, Maesyfed, Dinefwr. Y teitl gan ddefnyddio enwau sirol modern (cyfredol) fyddai Powys Deheuol Caerfyrddin Gogleddol. Hen neu Newydd? Yn Gymraeg, y sir yw Sir Frycheiniog Faesyfed. Ond fel un teitl ni fyddai'n hollol gywir yn weledol, ac mae angen i deitlau fod yn gryno. Felly gadael Sir allan. Gyda'r F mae'n dweud wrthoch chi mai'r sir ydyw. Gan nad yw'r mwyafrif yn gwybod am Faesyfed yna gellid defnyddio Maesyfed.

Eglurhad: Mae hen ardaloedd a hen siroedd Brycheiniog a Sir Faesyfed (Sir Frycheiniog) yn ffurfio'r etholaeth yma. Ond gyda'r ystod etholaeth newydd mae'n rhy fach. Felly, rhaid ei ategu. Byddai hyn yn amlwg gyda rhannau eraill o'r un sir-Powys. Ond wrth ystyried etholaethau eraill- gweler uchod- yna mae angen gofyn am rywbeth arall. Nid oes dewisiadau amgen. Naill ai i'r gorllewin, neu i lawr i'r de. Wrth fynd i'r de eir i mewn i ran arall o Gymru'n llwyr, de Cymru. Mae'r ddwy ran yma o Gymru yn wahanol iawn. Gwahanol ym mhob ystyr bron. Mae hynny'n hanesyddol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac yn y blaen- mae galwedigaethau yn wahanol iawn. Hefyd, mae'r tirwedd yn dra gwahanol. Yma mae llawer wedi ei adael i fyd natur, mae gan y rhan ddeheuol farciau bodau dynol drosti i gyd. Felly, nid yw hwn

yn opsiwn. Fel tuag at y gorllewin mae'n debyg iawn, tirwedd, galwedigaethau, hanes ac yn y blaen. Dyma'r dewis gwell- yr unig ddewis mewn gwirionedd. Nawr dylai Ceredigion gael ei gadw'n "gyfan". Felly, y dewis yw Sir Caerfyrddin. Mae hyn yn cymryd y rhan fwyaf o Ddinefwr, gweler uchod. Yn wir, gallai Tywi fod yr enw yn y teitl yn hytrach na Dinefwr. Hyd yn oed lle mae'r enwau eraill yn drefi gellid defnyddio Tywi yn lle Llanymddyfri/ Llandeilo. Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys rhannau o siroedd Powys a Rhaeadr. Mae cysylltiad da rhyngddo a'i gilydd. Mae'r A40 yn mynd trwy rhan ddeheuol Powys, gan gynnwys Aberhonddu i Lanymddyfri, yr holl ffordd i lawr Dyffryn Tywi i Llandeilo. Mae'r A4067/ A4068 yn mynd i Chwarter Bach. Mae'r A483 yn mynd o Lanymddyfri i Landrindod trwy Lanwrtyd a Llanfair-ym-Muallt. Mae'r cyfan wedi'i gysylltu'n arbennig o dda â chysylltiadau â phawb. Gallech ddweud mai ar ôl Powys dyma'r ychwanegiad / atodiad delfrydol ar gyfer etholaeth (yr un presennol).

10. Ceredigion Teifi 76,126

Compilation: Borth 1677 Ceuabanamaesmaur 1551 Melindur 1578
 Trefeurig 1382 Triymymach 1403 Faenor 1985 Llanbadarn —
 Fawr-Padam 767 Sullen 973; Aberystwyth - Bronglais 936 Central 1358
 Rheidd 1776 Penparcau 2084; Llanfarian 1193 Ystywyth 1673
 Llanrhystud 1255 Lledrod 1812 Tregarra 951 Llangelitho 1168
 Llangybi 1186 Lampeter 1660 Llanwenog 1419 Llanfihangel Ystrad
 1666 Llansantffraed 1935 Aberaern 1088 Cilias Aeron 1613 Llandysilio —
 gogo 1653 New Quay 810 Llanarth 1222 Capel Dewi 1068 Llandyspring
 1466 Llandysul Town 1067 Troedyraur 1110 Penbryn 1762 Aberporth
 1839 Beulah 1413 Pen-parc 1933 Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch 895
 Mwdan 1522 Teifi 824; S^t Dogmaels 1775 Newport 879 Dinas Cross
 1313 Maenclochog 2462 Crymych 2099 Cilgerran 1594 Clydau 1189
 Ceanarth 1669 Llangeler 2772 Llanfihangel-ar-Arth 2196



Designation The constituency consists of Ceredigion and the Teifi Valley. Therefore it is called Ceredigion Teifi Valley



**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru